7 Ionawr 2026

Buffy Williams MS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Annwyl Gadeirydd,

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2026-27**

Diolch am eich llythyr (dyddiedig 10 Rhagfyr 2025) yn gofyn am ragor o wybodaeth am restrau aros ar gyfer lleoedd myfyrwyr mewn colegau addysg bellach.

Fel y nodwyd yn ein sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor, cynyddodd cyfranogiad yn addysg amser llawn y colegau addysg bellach ym mlwyddyn academaidd 2025/26. Mae hyn oherwydd bod nifer fwy o ddysgwyr yn y demograffeg oedran 16-19, a hefyd oherwydd bod cyfran fwy o'r dysgwyr hynny'n mynychu colegau addysg bellach.

Gan ragweld y pwysau ariannol sylweddol a fyddai'n deillio o'r cynnydd hwn mewn cyfranogiad, cytunodd Llywodraeth Cymru i'n cais am gyllid ychwanegol ym mlwyddyn ariannol 2025-26. Drwy hyn, bu modd i Medr neilltuo £21m i gydnabod cost y cynnydd i gyfranogiad mewn addysg bellach. Tra'n bod wrthi'n pennu'n derfynol y symiau a fyddai'n cael eu dyrannu i sefydliadau o'r £21m hwn (ar sail data wedi'u dilysu), gweithredodd Medr ar unwaith i sicrhau pob coleg y byddai'n derbyn isafswm o 5% o gynnydd i'w ddyraniad craidd amser llawn, er mwyn lliniaru'r risg o restrau aros ar gyfer lleoedd mewn colegau.

Mewn ymateb i'ch cwestiynau penodol, adroddodd pum coleg fod ganddynt restrau aros ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Fodd bynnag, ers cadarnhau'r £21m ychwanegol, mae'r colegau hynny wedi bod yn mynd ati'n weithredol i leoli dysgwyr neu eu cyfeirio i ddarpariaeth amgen. Nid ydym ond yn ymwybodol o un coleg, Coleg Cambria, sydd yn dal mewn cysylltiad â 60 o ddysgwyr heb eu lleoli, sy'n ceisio mynediad at ddarpariaeth lefel 1.



2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff CF10 4BZ

www.medr.cymru

Mae Coleg Cambria wedi cyfeirio cyfleoedd eraill i sylw'r dysgwyr hyn, fel Twf Swyddi Cymru+, ac yn parhau i gynnig lleoedd wrth iddynt ddod ar gael. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Choleg Cambria i ganfod atebion posibl er mwyn lleoli'r dysgwyr hyn.


Mae'n werth nodi, wrth reoli ymrestriadau dysgwyr, ac er mwyn osgoi rhestrau aros, fod pob coleg wedi dweud wrthym nad yw dysgwyr bob amser yn cael eu lleoli ar eu dewis cyntaf o ran cwrs. Gall hyn fod oherwydd cymhwystra dysgwyr, gyda cholegau'n ailgyfeirio dysgwyr i gyrsiau mwy addas, ond bu galw digynsail hefyd am rai cyrsiau, fel adeiladu lefel 1 a 2, lle mae capasiti gweithdai yn cyfyngu ar gyfanswm y lleoedd sydd ar gael. Lle ceir problemau o ran capasiti, mae colegau wedi gweithio gyda dysgwyr i'w lleoli ar gyrsiau eraill priodol.

Wrth droi ein golygon at Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27, fel yr amlygwyd yn ein sesiwn dystiolaeth i'r Pwyllgor, rhagwelwn y bydd pwysau ariannol sylweddol yn deillio o gynnydd i'r cyfranogiad mewn addysg uwch. Mae gwaith modelu cynnar ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yn awgrymu y gallai colegau gofrestru dros 3,000 o ddysgwyr uwchlaw'r lefelau cyllido disgwyliedig. Mae hyn yn cyfateb i tua £30m.

Nid yw Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27 yn cynnwys cyllid ychwanegol i gefnogi cynnydd mewn cyfranogiad, fel y cafwyd yn 2025-26. Gan hynny, ni fydd gan Medr y capasiti yn ystod y flwyddyn i ymateb yn yr un modd i'r cynnydd mewn cyfranogiad ag a wnaeth yn 2025/26, drwy ddarparu £21m yn ychwanegol. Ar ôl cyhoeddi ein rhagdybiaethau cyllido ar gyfer 2026-27, mae Medr wedi cynnal nifer o drafodaethau â Phenaethiaid a Chyfarwyddwyr Cyllid Colegau, sy'n tynnu sylw at y ffaith bod pob coleg yn rhagweld y bydd ganddo restrau aros ar ddechrau'r flwyddyn academaidd nesaf, os na cheir cyllid ychwanegol yn 2026/27.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a cholegau addysg bellach i gael dealltwriaeth well o oblygiadau posibl y pwysau ariannol hyn, os na ddaw cyllid ychwanegol i'r amlwg.

Yn gywir,



**James Owen**
Prif Weithredwr